# POLISÏAU ADDYSG A HYFFORDDIANT I WELLA DATBLYGU GWLEDIG A'R GALLU I GYSTADLU

## CYFLWYNIAD

1. Cydlynwyd y cyflwyniad hwn gan Gyngor Hyfforddi a Menter Canolbarth Cymru mewn ymgynghoriad ag unigolion blaenllaw ym meysydd Addysg Uwch ac Addysg Bellach ac yn y sector Ysgolion. Bydd cyflwyniad byr yn y Pwyllgor yn ategu'r papur yma.

2. Nod y Papur yw ceisio canolbwyntio ar gyfraniad addysg a hyfforddiant i ddatblygu gwledig, a sut y gellir gwella'r cyfraniad hwn: yn wir, mae'n rhaid ei wella. Ei nod yw ychwanegu gwerth at y polisïau addysg a hyfforddiant newydd lu sy'n cael eu cynnwys yn nogfennau allweddol y Cynulliad Cenedlaethol, er enghraifft yr adroddiad ar y Tasglu Sgiliau a rhaglenni'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd, a blaenoriaethu'r polisïau hynny. Yn ogystal â hyn, cafodd ei ysgrifennu yng nghyd-destun Cyngor Addysg a Hyfforddiant newydd Cymru/strwythur newydd y Cyngor Cyllido Addysg Uwch. Fe fydd y rhain yn cyfannu holl faes addysg a hyfforddiant ôl-16 sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus ar ffurf fydd yn gwbl unigryw i Gymru. Fe fydd yn tynnu'n helaeth ar Gynllun Gweithredu Sgiliau Integredig Partneriaeth Canolbarth Cymru.

**NEGESEUON ALLWEDDOL**

1. **Dyma ein tair Neges Allweddol:**
   - i. **Rhaid i Ddysgu a Sgiliau (buddsoddiad mewn pobl) fod wrth wraidd strategaeth newydd i wella gallu cystadleuol y Gymru Wledig.**
   - ii. **Mae dull cwbl integredig o ymwneud ag addysg a hyfforddiant yn hanfodol.**
   - iii. **Mae angen trac triphlyg:**
     - **cynyddu'r galw am gyfranogi mewn dysgu a chaffael sgiliau,**
     - **cynyddu gwerthfawrogiad y cyflogwr a gwerth yr hyfforddiant, a**
     - **gwella'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant.**

## GWEITHREDU'R CYNULLIAD CENEDLAETHOL

4. Dyma yw ein hargymhellion i'r Cynulliad Cenedlaethol:

i. Ailfeddwl ynghylch y dull confensiynol o ymdrin â pholisïau datblygu gwledig …er mwyn sicrhau mai addysg a chaffaeliad sgiliau, yn enwedig o ran pobl ifanc, sy’n wirioneddol gyfrifol am sbarduno cynnydd yng nghefn gwlad.
ii. Mynnu bod polisïau addysg a hyfforddiant newydd yn cael eu seilio ar dystiolaeth yn hytrach na rhagdybiaeth. Dylid rhoi lle amlwg i’r pethau sy’n cael eu hanwybyddu fel arfer.
iii. Sicrhau bod yr holl ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yn adlewyrchu’r math o swyddi a phroffiliau galwedigaethol sy’n dechrau dod i’r amlwg (hyd yn oed o ran y swyddi ‘traddodiadol’), a bod diffygion a bylchau o ran sgiliau yn cael eu nodi.
iv. Rhoi mwy o gydnabyddiaeth i sgiliau nad ydynt yn rhai gwybyddol, yn enwedig sgiliau sy’n gysylltiedig â menter ac entrepreneuriaeth. Gall polisïau addysg a hyfforddiant ganolbwyntio’n ormodol ar brosesau asesu a chymwysterau o bryd i’w gilydd.
v. Sicrhau bod darpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn cynyddu ar yr un cyflymder â’r mentrau sy’n cael eu cyflwyno ar gyfer gweddill y DG. Mae cyflwyno graddau sylfaenol yn Lloegr yn enghraifft.
vi. Sicrhau gweithredu cyflym ac effeithiol ar strategaeth TGCh ar gyfer addysg ac e-ddysgu ledled Cymru wledig, a sicrhau nad oes unrhyw lusgo traed o’i gymharu â’r ardaloedd poblog.
vii. Cyflwyno cynlluniau grant newydd sy’n ysgogi cyflogwyr â busnesau bychain neu canolig eu maint i gynyddu’n gyflym maint ac ansawdd yr hyfforddiant y mae eu gweithwyr yn ei ddilyn.
viii. Gofyn i’r holl gyrff y mae’r Cynulliad yn eu noddi a Llywodraeth Leol i osod amod bod yn rhaid i gwmnïau gynnwys cynllun hyfforddi strwythuredig pan fyddant yn gwneud cais am gymorth ariannol cyhoeddus. Dylai’r cynllun fod yr un mor ddilys â phob agwedd arall ar y cynllun. Dylid cysylltu taliadau fesul cyfnod â chynnydd wrth weithredu’r cynllun hyfforddi, ac yn achos cwmnïau mawr, (50+ o weithwyr) rhaid ymrwymo i safon Buddsoddiad Mewn Pobl.
ix. Cydnabod bod costau cyflwyno addysg a hyfforddiant o ansawdd yn y Gymru wledig yn ddrud oherwydd na ellir dibynnu ar arbedion maint.
x. Cydnabod bod cyfranogi mewn addysg neu ddysgu amser llawn mewn ardaloedd gwledig yn ddrutach, a gweithredu yn ôl argymhellion Tasglu Sgiliau Cymru: *Er mwyn annog mwy o bobl ifanc i gyfranogi o addysg a hyfforddiant, dylid cyflwyno Lwfans Cynnal Dysgu newydd sy’n ddatblygiad o’r cynlluniau lwfans Cynnal Addysg a gynigir yn Lloegr*.

**PROBLEMAU PWYSIG YN ECONOMI SGILIAU CEFN GWLAD CYMRU**

5. Rhaid i bolisïau datblygu gwledig fynd i’r afael â’r materion canlynol:

i. Y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth isel y pen, a’r lefelau cynhyrchiant busnes isel sydd y tu cefn i hyn.
ii. Trai yn y diwydiant amaethyddiaeth a’r golled o ran cyfoeth a chyfle am waith ddaw yn sgîl y trai hwnnw
iii. Atal problemau cyflogi yn y dyfodol.

iv. Yr eithrio gwasgaredig o'r farchnad waith.
v. Diffyg cymryd rhan mewn dysgu, ac ymwybyddiaeth isel o bwysigrwydd sgiliau yn enwedig ym maes amaethyddiaeth a diwydiannau sy'n gysylltiedig ag ef.
vi. Lefelau isel defnyddio TGCh.
vii. Diffyg sgiliau uchel yn yr economi lleol
viii. Anawsterau wrth gyrchu hyfforddiant
ix. Yr angen am aml-sgilio yng ngweithlu'r SME's drwyddynt draw

**ARFER GORAU**

6. Mae'r canlynol yn rhoi rhai enghreifftiau o arfer gorau ac yn dangos y ffordd orau ymlaen.

6.1 Y CYNGOR CENEDLAETHOL … CYFRWNG I SICRHAU GWELL INTEGREIDDIO?

Integreiddiad ar lefel leol

6.1.1 Fe fydd y Consortia Cymunedol Addysg a Hyfforddiant (CCETs) yn darparu cyfrwng i'r Cyngor Cenedlaethol newydd gynghori ar ddarpariaeth addysg a hyfforddiant lleol a chynllunio ar eu cyfer. Er mwyn inni wneud hyn yn effeithiol, fodd bynnag, fe fydd angen i aelodau'r CCET weithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau sefydliadau mewn dull agored a chydweithredol. Mae astudiaethau diweddar wedi amlygu pwysigrwydd datblygu gallu partneriaid i gydweithio er mwyn mynd i'r afael â gwrthdaro o ran buddiannau sefydliadol er lles y gymuned. Mae rhaglen 'Tîm Ceredigion' yn enghraifft dda o CCET yn mynd i'r afael â mater sylfaenol adeiladu perthynas a phartneriaeth fel cam cyntaf yn ei ddatblygiad.

6.1.2 Wrth osod agenda ar gyfer y CCETs, mae angen i'r Cyngor Cenedlaethol fod yn gwbl glir nad yw'r cyfleoedd i 'ddileu cystadleuaeth di-werth' mor amlwg mewn ardaloedd cefn gwlad, ac fe fydd absenoldeb arbedion maint wrth gyflwyno addysg a hyfforddiant yn parhau. Yn ogystal â hyn, fe fydd y galw gwasgaredig a chyfyngedig am addysg a hyfforddiant yn y Gymru wledig yn golygu o bosibl na fydd CCETs sy'n canolbwyntio ar ardaloedd awdurdodau lleol mewn sefyllfa i arddel dull strategol wrth gynllunio a chyflwyno rhai mathau o ddarpariaeth.

Integreiddiad ar lefel Cymru gyfan

6.1.3 Mae cyrsiau amaethyddiaeth amser llawn yn enghraifft o ddarpariaeth hyfforddiant y byddai o fantais ei chyflwyno ar lefel Cymru gyfan o bosibl. Mae'r trai yn y diwydiant i'w weld yn y lleihad yn y galw am leoedd ar gyrsiau amaethyddol mewn sefydliadau addysg pellach ac uwch. Ni ddylid caniatáu i rymoedd y farchnad fod yn drechaf; rhaid

mabwysiadu dull strwythuredig wrth drin trefniadaeth addysg a hyfforddiant amaethyddol yng Nghymru. Argymhellodd astudiaeth Sgiliau Dyfodol Cymru o'r sector amaethyddol y dylid magu ymagwedd gyfannol tuag at drefniadaeth hyfforddiant amaethyddol, yn hytrach na defnyddio'r systemau cyfredol sydd braidd yn dameidiog.

6.1.4 Mae'r Cyngor Cenedlaethol newydd mewn sefyllfa dda i edrych ar y mater yng nghyd-destun Cymru gyfan ac i resymoli'r ddarpariaeth ar draws nifer cynaliadwy o sefydliadau. Mae hefyd mewn sefyllfa dda i alw am gysylltiadau agosach rhwng Addysg Uwch (AU) ac Addysg Bellach (AB). Mae sawl enghraifft o arfer da i'w gweld, nid lleiaf yn y berthynas rhwng Sefydliad Astudiaethau Gwledig Aberystwyth a Choleg Sir Gar. Dan y trefniant hwn, mae'r canolfannau AB wedi'u hethlofreinio i gyflwyno cyrsiau AU yn lleol i ffermwyr sy'n gweithio yng Ngorllewin Cymru.

Integreiddiad ar draws yr asiantaethau datblygu economaidd

6.1.5 Nododd y "Gr@p Strategaeth Datblygu Fferm" a sefydlwyd dan y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth ac a noddwyd gan Gyfarwyddiaeth Fwyd y WDA bod hyfforddiant yn flaenoriaeth. Comisiynwyd TEC Canolbarth Cymru i ymchwilio i'r ffordd orau o ddatblygu sgiliau rheolaeth a TGCh ffermwyr. Mae canfyddiadau'r ymchwil yn dangos bod angen rhaglen sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau i ddefnyddio TG fel offeryn rheoli busnes yn hytrach nag i annog ffermwyr unigol i gyflawni cymwysterau. Fe fydd yr ymchwil yn help i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y Cyngor Cenedlaethol sy'n cynrychioli Cyswllt Ffermio wrth iddo ddatblygu pecyn o sgiliau a chefnogaeth.

6.1.6 Mae ymchwil bellach a gomisiynodd y Gr@p Strategaeth Datblygu Fferm yn nodi strategaeth i ddatblygu cefnogaeth busnes ar gyfer diwydiannau sy'n seiliedig ar y tir. Mae'n nodi'n glir y dylai colegau amaethyddol gael eu defnyddio i gynnal rhwydwaith o ffermydd arddangos. Mae sefydlu "Ffermydd Ffocws" yn seiliedig yn y Coleg gan y Cyngor Datblygu Llaeth, a defnydd yr Adran Amaethyddol yng Ngogledd Iwerddon o Goleg Greenmount yn enghreifftiau pellach o sut y dylid integreiddio'r rhwydwaith addysg ar draws strategaethau datblygu economaidd.

6.2 CODI GALW UNIGOLION AM DDYSGU

Datblygu 'diwylliant dysgu'

6.2.1 Yn ddiweddar, bu llawer o sôn am 'ddiwylliant' yng nghyd-destun datblygu economaidd yng Nghymru. Mae Better Wales.com yn crybwyll yr angen i sicrhau bod 'dysgu gydol oes' yn dod yn rhan o ddiwylliant cymunedau a sefydliadau Cymru. Mae'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth yn cyfeirio at yr angen i ddatblygu 'diwylliant menter' yng Nghymru.

6.2.2 Mae datblygu 'diwylliant dysgu' yn ffurfio rhan ganolog o Gynllun Gweithredu Sgiliau Integredig Partneriaeth Canolbarth Cymru. Mae'r Bartneriaeth wrthi'n datblygu cynllun integredig y bydd amrywiaeth o sefydliadau yn ymwneud ag ef, er mwyn cynyddu gwerth canfyddedig dysgu a sgiliau ymhlith pobl ifanc, o'r crud i'r bedd. Dylai gwersi a ddysgwyd trwy brofiad Canolbarth Cymru gael eu lledu dros bob rhan o'r Gymru wledig dros y misoedd nesaf.

Goresgyn y rhwystrau sy'n atal dysgu

6.2.3 Mae Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn galluogi i bobl newid yn sylfaenol eu dull o weithio a rhyngweithio. Mae llythrennedd TGCh yn prysur ddod yn un o'r nodweddion sy'n anhepgor wrth chwilio am waith, ac mae defnyddio technolegau'n effeithiol yn un o'r nodweddion sy'n sbarduno gallu cystadleuol mewn busnes. Eto, mae busnesau ac unigolion yng nghefn gwlad Cymru yn llai tebygol o ddefnyddio TGCh na'u cyfoedion mewn lleoedd eraill. Mae angen gweithredu cydlynol i gynyddu'r defnydd o TGCh yn y Gymru wledig.

6.2.4 Mae prosiect TGCh/DAD Partneriaeth Canolbarth Cymru yn ceisio dwyn ynghyd y gwaith o ddatblygu rhwydwaith cyfathrebu modern drwy'r rhanbarth ac o ddatblygu gallu pobl i ddefnyddio'r technolegau perthnasol. Mae'r prosiect yn cyfuno amrywiaeth eang o sefydliadau sy'n rhannu gweledigaeth gyffredin ar gyfer cymdeithas 'gysylltiedig' yn y rhanbarth

6.2.5 Fe fyddai rhwydwaith cyfathrebu modern yn gwneud dysgu yn beth mwy hygyrch mewn cymunedau gwledig. Nid modd i wella pob clwy sy'n gysylltiedig â sgiliau Cymru wledig mo e-ddysgu. Mewn e-ddysgu, fel mewn unrhyw ffurf arall ar ddysgu agored neu ddysgu o bell, mae'n rhaid wrth ddysgwyr llawn cymhelliant os yw'r dull i fod yn un llwyddiannus. Mae llwyddiant e-ddysgu hefyd yn dibynnu'n helaeth ar ansawdd a phriodoldeb y gefnogaeth mentora sy'n cael ei ddarparu. Y cyfan fydd yn digwydd wrth fabwysiadu e-ddysgu i wella pob clwy yn yr ardaloedd gwledig, ysywaeth, yw creu dull newydd o wthio pobl i'r cyrion.

6.3 CYNYDDU YMWYBYDDIAETH BUSNESAU O WERTH SGILIAU A HYFFORDDI

Trin busnesau ar eu termau eu hunain

6.3.1 Yr un yw anghenion sgiliau busnes yng nghefn gwlad, yn eu hanfod, ag anghenion busnes ardaloedd trefol. Ond mae ambell i beth yn eu gwahaniaethu: y diffyg yng ngallu busnesau cefn gwlad i gyrchu hyfforddiant i ddiwallu'r anghenion hynny, neu i gyflwyno hyfforddiant mewnol addas oherwydd eu maint. Mae Cynllun Rhannu Prentisiaeth arloesol Shareaspect yn ceisio goresgyn yr anawsterau hyn trwy ddwyn ynghyd nifer o

gwmnïau peirianyddol na fyddent fel arall yn gallu fforddio talu am hyfforddiant cynhwysfawr, er mwyn darparu cyfleoedd Prentisiaeth Fodern ar gyfer pobl ifanc. Bu'r Cynllun Rhannu Prentisiaeth yn llwyddiannus wrth iddo gynyddu niferoedd y bobl ifanc sy'n dilyn cwrs hyfforddiant hyd at lefel crefftwr a thechnegwr yng Nghanolbarth Cymru, ond roedd pris uchel i'w dalu am hyn. Mae costau hyfforddi nifer uchel o fusnesau bach, sef rhan bwysicaf yr economi gwledig, yn uwch ac mae'n rhaid i bolisïau ariannu adlewyrchu'r 'premiwm cefn gwlad' yn hyn o beth.

6.3.2 Ceir dull tebyg o ddarparu hyfforddiant eang ei gwmpas yng Ngwynedd, lle mae 'Cylch Sgiliau' yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc gael profiad gwaith o fewn amrywiaeth o sefydliadau yn y diwydiannau adwerthu a thwristiaeth.

## 6.4 GWELLA'R DDARPARIAETH ADDYSG A HYFFORDDIANT

### Datblygu'r cynnyrch i ddiwallu anghenion y dysgwyr

6.4.1 Mae hyfforddiant fel arfer yn darparu ymagwedd 'rhag ofn' tuag at ddysgu. Mae busnesau, ac yn wir, unigolion am gael dull 'jyst mewn pryd' i'w helpu i oresgyn problem mwyaf taer y dydd.

6.4.2 Mae'r deunyddiau dysgu y mae'r Brifysgol i Ddiwydiant (UfI) yn eu datblygu ar hyn o bryd yn rhywfaint o gymorth wrth ddarparu mân unedau cyrsiau, ond mae angen llawer mwy o waith er mwyn sicrhau bod y deunyddiau yn fwy priodol ar gyfer anghenion y darpar-ddysgwyr. Mae sefydlu'r Cyngor Cenedlaethol yn cynnig cyfle i edrych ar ddulliau newydd ac arloesol o roi atebion i 'broblemau' heddiw y dysgwyr, a'u helpu i baratoi ar gyfer problemau yfory.

### Datblygu system sy'n helpu i oresgyn y rhwystrau i ddysgu

6.4.3 Ar hyn o bryd, mae'r systemau sy'n ariannu datblygu sgiliau yn cael eu hanelu at helpu busnesau ac unigolion i oresgyn y rhwystrau ariannol i hyfforddiant; eto mae'r naill ddarn o ymchwil ar ôl y llall yn dangos mai 'amser' yw'r prif rwystr.

6.4.4 Fe fyddai cynigion y mae TEC Canolbarth Cymru wrthi'n eu datblygu yn helpu busnesau i 'brynu amser a gwybodaeth' trwy ganolbwyntio datblygu'r sgiliau ar ddatrys problemau busnes. Mae'r rhaglen arbrofol arfaethedig yn llwyr gydnabod y gall cymorth rheolaeth parhaus helpu busnesau bach i ddod yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol.